# Beibl i Blant
## yn cyflwyno

# Jeremeia, y proffwyd trist




Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Jonathan Hay

Cyfieithydd: Catrin Roberts

addaswyd gan: Mary-Anne S.



Stori 28 o 60

**www.M1914.org**

***Bible for Children,*** *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*



Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.


Welsh

Cafodd Jeremeia ei eni i deulu crefyddol yn nheyrnas Jwda. Roedd ei dad, Chilceia, yn offeiriad. Roedd y teulu'n byw mewn tref o'r enw Anathoth, yn agos at Jerwsalem. Tybed oedd rhieni Jeremeia yn meddwl y byddai e hefyd yn mynd yn offeiriad? Ond roedd gan Dduw gynlluniau eraill.



1



Adeg geni Jeremeia, doedd pobl Dduw ddim yn ufuddhau i Dduw. Roedd bron pawb, o'r brenin i'r gweithiwr lleiaf pwysig, yn addoli duwiau ffug – hyd yn oed yn nheml sanctaidd Duw ei hun!

2


Siaradodd Duw gyda Jeremeia pan oedd e'n ddyn ifanc. Dywedodd, "Rôn i'n dy nabod di cyn i ti gael dy eni. Wnes i dy benodi di'n broffwyd i siarad ar fy rhan."
3
Roedd geiriau Duw fel petai nhw'n dychryn Jeremeia. "O! ARGLWYDD Dduw!" gwaeddodd, "alla i ddim siarad ar dy ran di, dw i'n rhy ifanc." Doedd e ddim yn blentyn - roedd e'n ugain oed. Ond doedd Jeremeia ddim yn meddwl y gallai e siarad dros Dduw yn erbyn yr holl ddrygioni oedd o'i gwmpas.
4
"Paid bod ag ofn," meddai Duw wrth Jeremeia. "Byddi di'n mynd i ble dwi'n dy anfon di ac yn dweud beth dw i'n ddweud wrthot ti. Bydda i gyda ti." Yna gwnaeth Duw rywbeth arbennig – dyma fe'n cyffwrdd ceg Jeremeia.
5
Rhoddodd Duw gryfder, dewrder a doethineb i Jeremeia. Aeth ati i siarad yn ddewr o flaen pobl, a'u hatgoffa fod Duw yn eu caru ac am eu helpu. Ond doedd neb yn gwrando arno. Dim hyd yn oed y brenin.
6
Roedd hyd yn oed yr offeriaid yn flin, yn dweud wrtho am stopio siarad am Dduw. Roedd yna broffwydi ffug yno hefyd, yn cyhuddo Jeremeia o ddweud celwydd.
7
Beth wnaeth Jeremeia oedd atgoffa'r bobl bod teyrnas Israel, yng ngogledd y wlad, wedi troi cefn ar Dduw tua cant o flynyddoedd cyn hynny. Roedd eu gelynion, yr Assyriaid, wedi eu concro ac wedi symud pob un o'r Israeliaid i fyw i wledydd pell.
8


Erbyn hyn, roedd pobl Jwda, teyrnas y de, wedi troi cefn ar Dduw. Roedd byddinoedd y gelyn wedi dechrau martsio tuag atyn nhw! Oedd Duw yn mynd i adael iddyn nhw goncro ei bobl a'u gorfodi i adael eu gwlad?
9
Fe wnaeth y bobl drystio eu duwiau ffug. Oedd y duwiau yma yn gallu amddiffyn nhw rhag y gelyn? Na! Dim ond Duw oedd yn gallu gwneud hynny. Roedd y bobl mor flin gyda Jeremeia, fe wnaethon nhw gynllunio i'w ladd e. Ond fe wnaeth Duw amddiffyn ei was.
10
O'r diwedd, dywedodd Duw rywbeth wnaeth synnu Jeremeia. Dywedodd, "Paid gweddïo dros y bobl yma. Na i ddim gwrando arnyn nhw nes bydda'n nhw'n barod i wrando arna i."
11
Fe wnaeth Jeremeia rybuddio'r brenin ei fod yn mynd i golli'r frwydr yn erbyn byddin Babylon. Gwylltiodd y brenin a taflu Jeremeia i'r carchar. Ond hyd yn oed yn y carchar, daliodd Jeremeia ati i bregethu a trystio Duw.
12
Ar ôl dod allan o'r carchar, dechreuodd Jeremeia bregethu eto i'r brenin a'r bobl, a dweud bod yn rhaid iddyn nhw droi nôl at Dduw, a'i drystio.
Y tro hwn, dyma'r brenin yn gorchymyn i Jeremeia gael ei ollwng i lawr pydew dwfn a mwdlyd.
13
Ond roedd Duw ar waith yng nghalon y brenin. Heb i neb arall wybod, fe wnaeth y brenin achub Jeremeia, a gofyn iddo beth oedd Duw am iddo ei wneud.
"Bydd yn barod i gael dy ddal yn gaeth, ac fe gei di fyw, dyna mae Duw'n ei ddweud,"
oedd yr ateb.
14

Fe wnaeth byddin Babylon goncro Jerwsalem a holl wlad Jwda. Dyma nhw'n dinistrio'r waliau a'r adeiladau a llosgi popeth. Dywedodd Duw y byddai'r bobl yn gaeth am saith deg o flynyddoedd,



ac yna byddai'n dod â nhw nôl i Wlad yr Addewid.



Jeremeia, y proffwyd trist

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Jeremeia

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

**Mae Duw yn gwybod** bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

**Mae Duw yn ein caru ni** gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

**Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau**, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

**Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!**